

## Cofnodion cyfarfod 9/1/2020

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Eluned Jones, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams. Y Cyngorydd Dilwyn Morgan (Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. **Croesawyd** pawb ac wrth ddyddio Blwyddyn Newydd Dda cyfeiriodd y Maer yn ôl at y cinio ardderchog a fwynhawyd ym Mhlas yn Dref cyn y Nadolig. Derbyniwyd ymddiheuriadau Sharon Evans.
2. **Buddiant:** Derbyniwyd datganiadau o fuddiant nad oedd yn rhagfarnu yn eitem 11.iii, sef cyfraniad i Ysgol Godre'r Berwyn, gan y Maer a Sue Davies.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 12/12/19.
4. **Materion y Clerc:**
  - i. Cynllun lleol i warchod y cyhoedd adeg llyfogydd: cytunwyd fod y drefn o rybuddion o lefel y llyn yn codi yn gweithio'n dda ar hyn o bryd. Cytunwyd i anfon enwau, cyfeiriadau a rhifau cyswllt Cyngorwyr sy'n byw yn y strydoedd a all gael eu heffeithio gan lif at swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru er gwybodaeth iddynt.
  - ii. Bioamrywiaeth a Chyfoeth Naturiol Cymru – bu newid yn y swyddogion perthnasol yn ddiweddar.
  - iii. Cyfoeth Naturiol Cymru: Derbyniwyd ateb yn dweud y byddai raid i'r Cyngor cael asesiad proffesiynol o'r sefyllfa cyn y gellid ystyried unrhyw bosibilrwydd o ddifa pla y jac-y-dos.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cyngorydd Gwynedd, a ddywedodd ei fod yn pwysu am fesurau diogelwch megis golau'n fflachio yn ardal Ysgol Godre'r Berwyn. Nid ydyw'n debygol y bydd cyfyngder o 20mya yn yr ardal hon. Mae sawl darn o stryd sydd efo pafin cul neu heb bafin o gwbl yn Y Bala ac mae'r rhain yn naturiol yn peri pryder. Mae'r Ganolfan Deulu yn symud yn ei blaen ac ar hyn o bryd cyfreithwyr yr Eglwys sy'n peri oedi.
6. **Byrddau Gwybodaeth:** Nid oes arian ar gael ar gyfer y prosiect hwn ar hyn o bryd. Cytunwyd i edrych eto ar y mater ym mis Ebrill.
7. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry a ddywedodd fod nifer dda wedi mynychu'r diwrnod agored ar Brosiect Blaendraeth Llyn Tegid; bydd y cais cynllunio'n cael ei gyflwyno ar ddiwedd y mis.
8. **Is-bwyllgor y Nadolig:** Adroddwyd bydd yr is-bwyllgor yn cyfarfod yn fuan. Canmolwyd y siopau a wnaeth ymdrech i addurno tu allan i'w busnesau yn ogystal a thu mewn.
9. **Grŵp Busnes:** Derbyniwyd gwybodaeth saith o siopau lleol yn cymryd rhan yn nathliadau Santes Dwynwen.

**10. Materion Cynllunio:** Dim

**11. Materion Cyllid:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf. Derbyniwyd
  - a. derbynneb HG Web Designs;
  - b. gwybodaeth am ad-daliad cynnal Y Domen.
  - c. Derbyneb ICO.

Cytunwyd i dalu

- d. Cyfraniad Partneriaeth Penllyn (£840)
  - e. Cyflog Rhagfyr (Taliad wedi ei wneud i)
- ii. Derbyniwyd tystysgrif edf am y goleuadau Nadolig ac ymateb ffafriol i gais am ostyngiad yn y pris
- iii. Derbyniwyd Adroddiad yr Is-Bwyllgor Cyllid a chytunwyd gyda phob un argymhelliad. Cytunwyd i hysbysu'r gwaith o gynnal y Domen am 3 mlynedd, ac i hysbysu'r gwaith o lanhau'r llochesi bws. Cytunodd Cynghorydd Dilwyn Morgan i holi ymhellach am yr ardoll leol yn y ffi parcio.
- iv. Gosodwyd y Gyllideb. Gan fod pob un o'r Cynghorwyr wedi gwrthod y lwfans y mae'r hawl ganddynt iddo, cytunodd pob un eu bod yn dymuno cyfrannu'r Lwfans i Glwb Ffilm a Chlwb Gwaith Cartref yr ysgol er mwyn prynu offer a fydd o les i'r disgyblion.
- v. Cytunwyd ar lefel Praesept 2020-2021 a fydd yn golygu cynnydd o £1.28 am y flwyddyn ers llynedd ar gyfer tŷ Band D.

**12. Gohebiaeth:**

- i. Clwb Gwaith Cartref a Chlwb Ffilm – cytunwyd i gyfrannu £2,000 o lwfansau'r Cynghorwyr ar gyfer prynu offer i'r plant.
- ii. Ymgynghoriad y Llywodraeth ar ffioedd cynllunio – roedd cytundeb cyffredinol fod y ffioedd yn rhy uchel, a gofynnwyd i'r Clerc ymateb ar ran y Cyngor.

**13. Partneriaeth Penllyn:** Adroddodd y cynrychiolwyr y bydd y llawr uchaf yn cael ei ail-wampio'n fuan yn dilyn llwyddiant yn y cais i "Arfor". Edrychir ymlaen at gyd-weithio gydag Adran daearyddiaeth yr ysgol i ganfod anghenion trigolion y 5 plwyf. Cytunodd y Maer i roi cyflwyniad ar waith y Cyngor Tref i'r Cyngor Ysgol. Dywedodd y Cynghorwyr y byddent yn falch iawn o groesawi cynrychiolaeth o'r ysgol i'r cyfarfodydd.

**14. Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands ar eu cyflwr. Cytunwyd nad ydy'r 2 fainc pren a haearn yn eiddo i'r Cyngor. Diolchwyd i John Caradog Williams am gynnig tynnu'r hen fwrdd gwybodaeth o'r Domen.

**15. Materion lleol y Cynghorwyr Tref :** Nododd Cynghorydd Dilwyn Morgan materion yn ymwneud a gorchudd draen a golau stryd yn Heol Tegid.

**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 6/2/20 yng Nghanolfan Henblas am 7.00pm

Amser gorffen: 8.45pm